OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2011 Rhif 1593 (Cy.184)

Y GYMRAEG, CYMRU

Rheoliadau Comisiynydd y Gymraeg (Penodi) 2011

Gwnaed - - - -	*28 Mehefin 2011*
Yn dod i rym - -	*29 Mehefin 2011*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adran 2(3) o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a pharagraff 7 o Atodlen 1 iddo(**1**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Comisiynydd y Gymraeg (Penodi) 2011.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn dod i rym ar 29 Mehefin 2011 ac maent yn gymwys o ran Cymru.

Sefydlu panel dethol

2.—(1) Pan ofynnir iddynt wneud hynny gan Brif Weinidog Cymru rhaid i Weinidogion Cymru gynnull panel dethol at ddibenion paragraff 7(2) o Atodlen 1 i Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

(2) Yn ddarostyngedig i baragraff (3), rhaid i banel dethol gael ei ffurfio gan y canlynol—

(a) aelod o staff Llywodraeth Cynulliad Cymru;

(b) person achrededig gan Swyddfa'r Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus i weithredu fel asesydd penodi annibynnol;

(c) person y mae'n ymddangos i Weinidogion Cymru ei fod yn meddu ar brofiad perthnasol; ac

(ch) Aelod o Gynulliad Cenedlaethol Cymru a enwebwyd gan bwyllgor perthnasol.

(3) Pan fo pwyllgor perthnasol naill ai:

(a) yn gwrthod enwebu; neu

(b) yn methu ag enwebu o fewn amser rhesymol,

nid yw paragraff (2)(ch) o'r rheoliad hwn yn gymwys.

(4) Yn y rheoliad hwn—

ystyr "profiad perthnasol" ("*relevant experience*") yw profiad o hybu defnydd o'r Gymraeg a/neu iaith arall; ac

(**1**) 2011 mccc 1

ystyr "pwyllgor perthnasol" ("*relevant committee*") yw un o bwyllgorau Cynulliad Cenedlaethol Cymru yr estynnir gwahoddiad iddo gan Weinidogion Cymru i enwebu.

Personau wedi eu anghymhwyso

3. Mae person sy'n dal neu wedi dal swydd Comisiynydd neu Ddirprwy Gomisiynydd wedi ei anghymhwyso rhag eistedd ar banel dethol.

Yr egwyddorion i'w dilyn

4. Wrth benodi'r Comisiynydd rhaid i Brif Weinidog Cymru ddilyn egwyddorion cyfrifoldeb gweinidogion, teilyngdod, craffu annibynnol, cyfle cyfartal, uniondeb, didwylledd a thryloywder a chymesuredd gan gymryd i ystyriaeth y disgrifiad o'r egwyddorion hynny yng Nghod Ymarfer y Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus ar gyfer Penodiadau gan Weinidogion i Gyrff Cyhoeddus dyddiedig Awst 2009.

Gwybodaeth o'r Gymraeg a hyfedredd ynddi

5.—(1) Wrth gyf-weld ag ymgeiswyr ar gyfer penodi Comisiynydd, rhaid i banel dethol asesu gwybodaeth pob ymgeisydd o'r Gymraeg a'i hyfedredd ynddi.

(2) Rhaid i argymhellion y mae panel dethol yn eu rhoi i Brif Weinidog Cymru mewn perthynas â'r penodiad gynnwys asesiad y panel o wybodaeth pob ymgeisydd o'r Gymraeg a'i hyfedredd ynddi.

(3) Cyn penodi person yn Gomisiynydd rhaid bod Prif Weinidog Cymru wedi ei fodloni bod gan y person wybodaeth ddigonol o'r Gymraeg a hyfedredd digonol ynddi i arfer swyddogaethau'r Comisiynydd.

Leighton Andrews
Y Gweinidog Addysg a Sgiliau, un o Weinidogion Cymru

28 Mehefin 2011